# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2019 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Mabon Ap Gwynfor, Jeanette Chamberlain-Jones, Alan James, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Graham Timms ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Swyddog Cyllid / A.151 (RW); Partner Busnes Arweiniol - Datblygu Sefydliadol (AM); Rheolwr Fframwaith (TS) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol: Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019.

**Materion yn codi -** Tudalen 6, Eitem 4 Cofnodion (Materion yn Codi) - Cabinet 30 Hydref 2018 (Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr) - Diolchodd y Cynghorydd Peter Scott i'r Arweinydd am y datganiad diweddar i'r wasg yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y safleoedd sipsiwn a theithwyr arfaethedig a chadarnhau ei fod yn edrych ymlaen at y cyfarfod adroddiad darpariaeth gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau'r wythnos ganlynol. Mewn ymateb i'w gais bod y mater yn cael ei atgyfeirio i'r pwyllgor craffu cadarnhawyd y byddai'r mater yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mawrth 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 5 POLISÏAU CYFLOGAETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young adroddiad yn argymell mabwysiadu chwe pholisi cyflogaeth a oedd wedi'u datblygu /diwygio mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur cydnabyddedig. Roedd y chwe polisi'n ymdrin â'r canlynol-

(1) Gweithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith (polisi diwygiedig)
(2) Canllawiau Addasiadau Rhesymol (polisi newydd)
(3) Polisi Darfyddiad Mislif (polisi newydd)
(4) Polisi Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau (polisi diwygiedig)
(5) Polisi Dim Ysmygu (polisi diwygiedig)
(6) Absenoldeb Brys wedi'i gynnwys yn y Polisi Amser o'r gwaith (geiriad diwygiedig)

Crynhodd y Cynghorydd Young y broses cyn cyflwyno'r polisïau i'r Cabinet i'w cymeradwyo a oedd yn cynnwys ymgynghori gyda Gweithgor Polisïau yn cynnwys cynrychiolwyr o Adnoddau Dynol, adran y Gyfraith a'r Undebau Llafur cyn cyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol (LJCC) a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr Cyflogwyr ac Undebau Llafur. Roedd adborth ar y broses yn gadarnhaol gan yr holl bartïon ac roedd yr LJCC wedi argymell y polisïau i'r Cabinet i'w mabwysiadu.

Darparodd y Partner Busnes Arweiniol – Datblygu Sefydliadol grynodeb byr o bob polisi, yn tynnu sylw at y newidiadau arfaethedig o fewn y polisïau oedd yn bodoli eisoes a'r angen ar gyfer polisïau newydd ynghyd â'r rhesymau dros hynny, a oedd yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol ac eglurder er mwyn sicrhau ymagwedd gyson a chywir.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a nodi bod yr holl bolisïau wedi bod yn destun Asesiad o Effaith ar Les unigol. Ar ôl cyfrannu at y broses roedd y Cynghorydd Richard Mainon yn awyddus bod y polisïau yn cael eu mabwysiadu ac roedd yn canmol y broses a thalu teyrnged i waith caled y rhai a gyfrannodd at gyflwyno'r polisïau. Ychwanegodd bod effaith lawn y polisïau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn yr Asesiadau o Effaith ar Les gan gynnwys cydnabod unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad, ac eglurodd yr elfen o ran y Polisi Presenoldeb yn y Gwaith a'r posibilrwydd o golli sgiliau posibl drwy salwch.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo'r polisïau cyflogaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer mabwysiadu yn y Cyngor, a*

*(b) chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (atodiad i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19 oedd £194.418 miliwn (£189.252miliwn yn 2017/18)
- roedd amcanestyniad o orwariant o £0.774 miliwn ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £4.6 miliwm a gytunwyd arnynt gan gynnwys y rhai hynny a oedd eisoes wedi eu cyflawni gyda'r dybiaeth y byddai pob arbediad effeithlonrwydd/ arbediad yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet lle bo'r angen
- amlygwyd risgiau ac amrywiadau cyfredol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd y wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Codwyd y materion canlynol gan y Cabinet wrth drafod –

- Cludiant i'r Ysgol - cyfeiriwyd at y gorwariant a ragwelir yng nghyllideb cludiant ysgol ac at y trafodaethau blaenorol a ddylid gosod y gyllideb yn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (HES) neu Wasanaethau Addysg a Phlant (ECS).
  Eglurwyd y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i osod y gyllideb gyda HES o ystyried fod ECS yn cynnal y broses o asesu i bennu a oedd plentyn yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol, ond roedd y trefniant comisiynu ar gyfer y rhai hynny a oedd yn gymwys ar gyfer cludiant i'r ysgol yn cael ei gynnal gan HES oherwydd yr arbenigedd a'r sgiliau oedd eu hangen ar gyfer trafod y contractau ysgolion. Roedd HES hefyd yn darparu gwasanaeth tebyg ar gyfer darpariaeth cludiant mewn meysydd gwasanaeth eraill gan gynnwys Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Cydnabuwyd bod cludiant i'r ysgol yn bwysau ar y gyllideb a oedd angen ei ddatrys lle bynnag y caiff ei leoli ac fe gytunwyd y dylai unrhyw adolygiad neu drafodaeth bellach am hynny gael ei gyflawni gyda'r swyddogion y tu allan i'r cyfarfod hwn.

- Cyllid y Cyngor–- cyfeiriodd yr Arweinydd at y pwysau gwasanaeth parhaus y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu ac adroddodd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru gyda'r nod o fuddsoddi mewn gwasanaethau craidd a darparu cynllun ariannol hir dymor i gynorthwyo gyda chynllunio ar gyfer y dyfodol.
  Er bod y Cyngor yn falch o'i gofnod o ran buddsoddi mewn gwasanaethau megis addysg a gofal cymdeithasol ac mewn trawsnewid gwasanaethau a datblygu gwydnwch, roedd hyfywedd a chynaliadwyedd y gwasanaethau lleol mewn perygl oherwydd y toriadau parhaus a chyson i gyllid llywodraeth leol. Cydnabuwyd y gwaith a wnaed gan CLlLC ar ran yr awdurdodau lleol yng Nghymru ond roedd y Cabinet yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno datganiad yn tynnu sylw at yr anawsterau ariannol ac i alw am ddarpariaeth

cyllid digonol i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau hanfodol yn y dyfodol. Cyfeiriwyd hefyd at adolygiad o wariant Llywodraeth y DU sydd i ddod, i benderfynu ar y setliad ar gyfer Cymru ac yn dilyn hynny byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar ddyraniadau cyllid ar gyfer y swyddogaethau datganoledig hynny, gan gynnwys llywodraeth leol, a bryd hynny efallai y byddai cyfle pellach i ddylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol a lobïo ar ran y preswylwyr.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau nad ydynt yn aelodau Cabinet ynglŷn â gorwariant amrywiol mewn adrannau gwasanaeth, eglurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill-

- y byddai disgwyl i'r holl wasanaethau gydbwyso eu cyllidebau'n fewnol lle bynnag y bo modd ac roedd mesurau i fynd i'r afael â gorwariant yn ymwneud â phrosiect SC2 wedi'u nodi yn yr adroddiad - roedd prosiect SC2 yn rhan o brosiect Glan y Môr a Pharc Dŵr y Rhyl gyda gwerth dros £20 miliwn ac yng nghyd-destun hynny roedd y gorwariant yn eithaf bychan.
- roedd £750,000 ychwanegol wedi'i ddyrannu i Wasanaethau Cymorth Cymunedol ar gyfer 2018/19 a chydag £366,000 o Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r defnydd a gynlluniwyd o'r cronfeydd wrth gefn, rhagwelwyd sefyllfa o gydbwyso'r gyllideb.
- ni ellir delio â'r gorwariant a ragwelwyd yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant yn fewnol yn y gwasanaeth ac felly byddai tanwariant corfforaethol yn cael ei ddefnyddio yn y flwyddyn ariannol bresennol - roedd dyraniad cyllideb sylfaenol ychwanegol o £1.5miliwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2019/20 i fynd i'r afael â'r pwysau hynny yn y dyfodol.
- cadarnhawyd bod pwysau tomenni hanesyddol a phwysau gwastraff yn ymwneud â throsglwyddo i gontractau gwastraff newydd yn gostau untro; eglurodd y Cynghorydd Brian Jones bod biniau yn y Rhyl wedi'u gwagio yn amlach o ganlyniad i faterion a godwyd gan y cyhoedd/aelodau yn ystod y tywydd poeth yr haf diwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*

*(b) chyhoeddi datganiad i alw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i gydnabod anawsterau darparu gwasanaethau statudol yn yr hinsawdd ariannol bresennol a gofyn iddynt weithredu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cyllido fel eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nodwyd y byddai'r eitem a ganlyn yn cael ei hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Mawrth- Llety Sipsiwn a Theithwyr.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Ar y pwynt hwn, gadawodd y Cynghorydd Richard Mainon y cyfarfod.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**8 PENODI CONTRACTWYR I FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU 2**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn argymell penodi’r contractwyr a enwyd i Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru 2 (NWCF2) i’w defnyddio ar gyfer gwaith adeiladu mawr dros £250,000.

Roedd fframwaith cyntaf cytundeb NWCF wedi dod i ben ym mis Mai 2018 ac wedi bod yn hynod lwyddiannus. Roedd yr adroddiad yn nodi buddiannau’r dull cydweithredol ar draws chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, dan arweiniad Sir Ddinbych, a oedd yn cynnwys arbedion sylweddol o ran costau ac amser. Y bwriad oedd gweithredu’r fframwaith am gyfnod o bedair blynedd o fis Mawrth 2019 (gyda chymal terfynu i’w adolygu ar ôl 2 a 3 blynedd). Roedd y contractwyr a argymhellwyd wedi’u gwerthuso yn unol â’r fethodoleg sgorio a phwysoli a nodwyd yn y dogfennau tendro.

Cytunodd y Cabinet bod nifer addas o gontractwyr ym mhob Lot i ddarparu cystadleuaeth ac yn fodlon nodi cynnydd yn nifer y contractwyr lleol ar draws y rhanbarth o fewn y fframwaith. Mewn ymateb i gwestiynau ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill a’r swyddogion ar yr ymgysylltiad helaeth gyda'r diwydiant adeiladu a'r ymarfer gwersi a ddysgwyd i sicrhau arfer orau ar gyfer yr ail fframwaith. Darparwyd sicrwydd hefyd o ran monitro ac archwilio prosiectau unigol a gwneud y mwyaf o ddarparu buddion cymunedol.

Llongyfarchodd y Cabinet y swyddogion ar lwyddiant y fframwaith cyntaf ac ar y gwobrau a enillwyd ynghyd â'r gwaith a wnaed i sicrhau bod mwy o lwyddiant a buddiannau yn deillio o'r ail fframwaith o ran yr economi leol, cyfleoedd cyflogaeth a buddion cymunedol.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r contractwyr a nodir ym mharagraff 3 yr adroddiad ar gyfer Fframwaith Contractwyr Adeiladau Cyhoeddus ac Ysgolion Gogledd Cymru.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05.